



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



GIG
CYMRU
NHS
WALES

GIG Cymru

Fframwaith Cynllunio

2022 – 2025

OGL

© Hawlfraint y Goron 2021

WG43668

ISBN digidol: 978-1-80391-254-7

Cynnwys

Tudalen

Rhagair y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	02
Neges gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol sy'n ymadael	03
Neges gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol	03
1. CYFLWYNIAD	04
2. CYD-DESTUN	04
3. BLAENORIAETHAU GWEINIDOGOL	05
4. CYNLLUNIO CLYSTYRAU	07
5. LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD	08
6. CYLLID	09
7. AMSERLEN	10

ATODIAD A Gofynion Statudol

Rhagair y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae cymryd cyfrifoldeb am iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn fraint unrhyw adeg, ond yn y sefyllfa bresennol mae'n her enfawr yn ogystal ag anrhydedd gwirioneddol. Mae'n bwysig imi ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i atgyfnerthu'r system iechyd a gofal cymdeithasol, a'i gwneud yn decach, fel y gall pawb deimlo'n hyderus y byddant yn cael y gofal a'r driniaeth sydd eu hangen arnynt, pan fydd arnynt eu hangen ac yn y lle iawn.

Rydym yn gwybod bod effaith Covid yn golygu cydbwysu risg mathau gwahanol o niwed. Rydym hefyd yn gwybod bod nifer sylweddol o bobl yn aros am ddiagnosis a thriniaeth ar gyfer amrywiaeth o gyflyrau. Er ein bod wedi gallu llacio'r cyfyngiadau ar ein bywydau, bydd y gaeaf sydd o'n blaenau yn heriol i bawb, a rhaid inni geisio rheoli llwybrau a galw yn sgil Covid a'r rhai nad ydynt yn ymwneud â Covid. Rwy'n disgwyl i'r byrddau iechyd gydweithio i ddarparu atebion rhanbarthol i fodloni'r galw hwn.

Mae fy mlaenoriaethau yn cydnabod bod rhaid inni, fel gwlad, barhau i ymateb i heriau uniongyrchol Covid ac, ar yr un pryd, droi ein sylw at gynaliadwyedd tymor hwy a gwella iechyd y boblogaeth. Rhaid inni fuddsoddi mewn adferiad, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, gwella darpariaeth iechyd meddwl drwy sicrhau cydraddoldeb rhwng cyflyrau iechyd corfforol a meddyliol, a chanolbwyntio ar atal. Rwyf wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi ein gweithwyr iechyd a gofal sydd wedi bod ac yn parhau i fod ar reng flaen ein hymdrechion.

Rwyf am sicrhau y gallwn wella hygyrchedd i'n gwasanaethau drwy ddefnyddio technolegau newydd a ffyrdd arloesol o weithio. Bydd hyn hefyd yn atgyfnerthu ein gwasanaethau.

Rhaid inni gydnabod hefyd mai GIG Cymru yw'r sefydliad cyhoeddus mwyaf yng Nghymru ac, o'r herwydd, mae ganddo gyfle unigryw i ddefnyddio ei arferion gwario a chyflogaeth i hyrwyddo amcanion polisi ehangach y Llywodraeth. Rwy'n awyddus ein bod, drwy gydweithio, yn manteisio ar bob cyfle i gefnogi twf economaidd lleol, adfywio a chadernid cymunedau; gan helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a ffactorau economaidd-gymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd.

O fewn fy mlaenoriaethau, ceir rhai meysydd o ddiddordeb penodol y byddaf yn eu trafod â Chadeiryddion y GIG i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud. Bydd y rhain yn dangos ein hymrwymiad i wireddu'r weledigaeth a'r uchelgeisiau a nodwyd yng nghynllun *Cymru Iachach*. Bydd mynd ati i wella gan ganolbwyntio ar y meysydd hyn yn darparu'r enillion angenrheidiol i ategu cynaliadwyedd tymor hwy, newid trawsffurfiol a gwelliant.

Rydym yn wynebu gaeaf eithriadol o anodd a byddwn heb os yn canolbwyntio'n bennaf ar yr heriau uniongyrchol dros y misoedd nesaf. Mae'n bwysig ein bod hefyd yn edrych ymlaen at sut y gallwn ailosod ein gwasanaethau i wella canlyniadau iechyd a lles yn y tymor hwy. Rhaid i'r GIG fod â chynlluniau cadarn sy'n cefnogi pobl Cymru i gadw'n iach ac yn ddiogel, ac a fydd yn llunio'r bennod nesaf i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig i bobl Cymru. Diolch yn fawr iawn.



Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Neges gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru sy'n ymadael

Dywedais yn 2020 nad wyf erioed wedi bod yn fwy balch o'm teitl Prif Weithredwr GIG Cymru a nawr wrth imi baratoi i ymgymryd â her newydd, edrychaf yn ôl nid yn unig gyda balchder ond gyda mwy fyth o barch at bob person a rhan o'r system iechyd a gofal sy'n parhau i reoli pwysau di-baid bob dydd.

Bydd y cyfnod digynsail hwn yn hanes y GIG yn adrodd ei stori ei hun o ran tosturi, gwydnwch, gofal ac yn aml ddewrder yn wyneb pandemig Covid, ond hoffwn ychwanegu fy nheyrnged fy hun i'r GIG a phopeth y mae wedi'i wneud i ofalu am gleifion drwy gydol yr amgylchiadau anoddaf.

Rydym hefyd wedi gweld dros y 18 mis diwethaf pa mor bwysig yw hi i sefydliadau gydweithio i gyfuno adnoddau ac uchelgais i sicrhau y gall Cymru ddatblygu gwasanaethau i gleifion ar draws ffiniau sefydliadol. Rwy'n gwybod y bydd y gwaith hwn yn parhau i esblygu a chryfhau dros y blynyddoedd nesaf.

Roedd y gaeaf diwethaf yn anodd ac mae'r gaeaf hwn yn debygol o fod yr un mor heriol. Dangosodd pawb ar draws y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol ymroddiad ac ymrwymiad, gyda llawer yn mynd yr ail filltir a'r tu hwnt. Rydym yn gwybod bod iechyd a lles rhai wedi dioddef o ganlyniad, felly wrth inni ystyried sut y byddwn yn symud ymlaen, mae lles staff a chymorth ar eu cyfer yn hollbwysig a gwn y bydd hyn ar flaen meddyliau pob sefydliad.

Mae wedi bod yn ffrainc ac yn anrhydedd bod yn Brif Weithredwr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar adeg pan na allai fod wedi cael ei brofi fwy. Mae'n sefydliad anhygoel gyda phobl eithriadol wrth ei wraidd yn ymroi i wella bywydau dinasyddion Cymru. Diolch yn fawr iawn ichi eto am eich holl waith caled.




Andrew Goodall CBE

Neges gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru

Mae'n bleser gennyf gymeradwyo Fframwaith Cynllunio'r GIG ar gyfer 2022-2025. A minnau wedi gweld yr arweiniad gwerthfawr y mae'n ei ddarparu ar gyfer gwaith cynllunio'r GIG, rwyf bellach yn croesawu'r cyfle i helpu'r GIG yng Nghymru i wneud y cynnydd pellach sydd ei angen ar draws y system, yn enwedig wrth inni symud tuag at adfer o'r pandemig.

Mae'r Fframwaith hwn yn rhoi'r eglurder sydd ei angen ar sefydliadau i osod y sylfeini i wneud y mwyaf o'r hyn a ddysgwyd a'r arloesedd a welwyd yn ystod y pandemig ac i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy at y dyfodol. Mae'r Fframwaith hefyd yn cefnogi uchelgeisiau ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG fel rhan o'r Economi Sylfaenol.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda phartneriaid ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i roi'r blaenoriaethau Gweinidogol ar waith, gyda'r uchelgais a'r angerdd sydd wrth wraidd GIG Cymru.



Judith Paget

1. Cyflwyniad

Dyma Fframwaith Cynllunio cyntaf y GIG yn nhymor newydd y Llywodraeth ac fe'i cyhoeddir ar adeg o bwysau eithriadol ar y system iechyd a gofal a chyn gaeaf heriol dros ben. Rydym yn cydnabod y bydd y system iechyd a gofal yng Nghymru yn parhau i flaenoriaethu a chydbwysu gwasanaethau yn ystod cyfnod y gaeaf sydd i ddod, gan ddarparu'r gofal gorau o dan amgylchiadau anodd. Mae pandemig Covid yn parhau i ddominyddu a dylanwadu ar yr hyn y gallwn ei wneud ac mae'n parhau i fod yn rhan flaenllaw o'n cynlluniau wrth gefn.

Mae'r Fframwaith hwn yn edrych ymlaen at y tair blynedd nesaf i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy i gleifion yng Nghymru wrth inni ddysgu byw gyda Covid. Y gofyniad yw i sefydliadau lunio Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd ar gyfer y cyfnod 2022-2025.

Mae'r bartneriaeth a'r cydweithio ar draws y system yng Nghymru dros y 21 mis diwethaf wedi bod yn rhagorol a rhaid inni fanteisio ar y ffordd hon o weithio er mwyn cyflawni'r arloesedd a'r gwelliannau sydd eu hangen arnom, gan gynnwys ar gyfer y rhestrau aros hir sydd wedi tyfu'n sylweddol yn ystod y pandemig.

2. Cyd-destun

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn sail i'r Rhaglen Lywodraethu a chynllun *Cymru Iachach*. Mae'r rhain yn parhau i lywio'r ffordd yr ydym yn gweithio a'r hyn a wnawn i gyflawni gwerthoedd ac ymrwymadau Llywodraeth Cymru.

Mae dogfennau polisi allweddol yn darparu'r cyd-destun y mae rhaid i'r GIG gynllunio oddi mewn iddo a, lle bo'n bosibl, gyflymu'r cyfleoedd sydd ar gael wrth hybu ansawdd a gwella gofal a gwasanaethau i gleifion.

Mae'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol yn cefnogi gwaith cynllunio'r GIG a darpariaeth gwasanaethau clinigol yng nghyd-destun y dulliau strategol a nodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n helpu i adfer a thrawsnewid gwasanaethau gan ganolbwyntio ar ofal iechyd darbodus ar sail gwerth. Mae'n defnyddio dull cynllunio yn seiliedig ar iechyd y boblogaeth, gan ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r GIG weithio ar y cyd â'u partneriaid i wella iechyd corfforol a meddyliol eu poblogaethau lleol, a chanolbwyntio ar les a lleihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau. I gefnogi hyn, mae llwybrau clinigol cenedlaethol yn yr arfaeth, wedi'u cysylltu â phrif achosion baich clefydau.

Ochr yn ochr â'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol, mae'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch yn dangos pwysigrwydd defnydd lleol systemig o'r cylch sicrhau ansawdd. Mae nifer o Ddatganiadau Ansawdd yn canolbwyntio ar ddatblygu llwybrau cenedlaethol i helpu i wella ansawdd gwasanaethau yn lleol a mynd i'r afael ag amrywiadau mewn gofal na ellir eu cyfiawnhau. Mae gofal iechyd seiliedig ar werth yn parhau i fod yn allweddol yn y gwaith hwn. Rhaid inni barhau i ganolbwyntio'n gyffredinol ar ddiogelwch, mynediad cyfartal a gwella canlyniadau.

Datblygwyd y Strategaeth Economi Sylfaenol ym Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Mawrth 2021. Mae angen i sefydliadau ddangos eu dealltwriaeth o'r economi sylfaenol a'r disgwyliad o wneud cynnydd tuag at gryfhau'r rôl y mae iechyd yn ei chwarae o fewn yr economi ehangach. Dylai'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ddarparu enghreifftiau o brosiectau penodol sydd eisoes yn canolbwyntio ar 'leihau anghydraddoldebau iechyd' a dangos sut mae sefydliadau yn cyfrannu at bolisiau trawsbynciol megis y Cynllun Cyflenwi Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru.

Mae'r Cynllun Rheoli Coronafeirws a gyhoeddwyd yn ddiweddar a Chynllun y Gaeaf ar gyfer iechyd a Gofal Cymdeithasol ill dau'n darparu cyd-destun pellach y mae angen i gynlluniau integredig weithredu ynddo.

Nid yw'r angen am arweinyddiaeth ac atebolrwydd cryf erioed wedi bod yn fwy a rhaid i Fyrddau barhau i gymryd y camau gweithredu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sydd eu hangen i sicrhau newid cynaliadwy a gwella iechyd y boblogaeth. Rhaid i'r byrddau iechyd gydweithio, ar draws ffiniau sefydliadol, i gynllunio a chyflawni ar sail ranbarthol.

3. Blaenoriaethau Gweinidogol

Cadarnhawyd y blaenoriaethau Gweinidogol ym mis Gorffennaf 2021 a byddant yn gyfarwydd i sefydliadau'r GIG:

- Cymru Iachach - sef y cyd-destun polisi cyffredinol
- Iechyd y boblogaeth
- Ymateb i Covid
- Adfer y GIG
- Iechyd meddwl a lles emosiynol
- Cefnogi'r gweithlu iechyd a gofal
- Cyllid y GIG a rheoli o fewn adnoddau
- Gweithio ochr yn ochr â Gofal Cymdeithasol

Cymru Iachach yw ein cyd-destun polisi cyffredinol o hyd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a dyma sy'n ysgogi ein hymrwymiaethau i ddarparu gofal di-dor. Rhaid i gynlluniau integredig ganolbwyntio ar wella iechyd y boblogaeth a hynny fel ffordd o sicrhau tegwch o ran iechyd, defnyddio gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig a mynd i'r afael ag effaith materion fel gordewdra ac ysmegu ar iechyd pobl.

Er bod yr ymateb i Covid o reidrwydd yn parhau'n ganolog i gynlluniau'r GIG, bydd angen canolbwyntio o'r newydd ar adfer yn y tair blynedd nesaf. Rhaid i hyn fod ar sail y system gyfan, gan adeiladu ar wersi a ddysgwyd a phrofiadau ar draws iechyd a gofal. Mae technoleg ddigidol ac arloesedd wedi bod yn hanfodol i gynnal ac esblygu gofal a gwasanaethau yn ystod y pandemig. Rhaid cyflymu ac ymwreiddio'r newidiadau ble bynnag y bo modd i weddnewid y ffordd o ddarparu agweddau priodol ar wasanaethau.

Bydd sicrhau mynediad at ofal yn nes at gartrefi pobl ble bynnag y bo modd, a sicrhau bod y chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng yn cael eu cyflawni, yn cefnogi mynediad at ofal a llif yn ein hysbytai. Mae rhestrau aros ar gyfer gofal wedi'i gynllunio wedi tyfu fwyfwy yn ystod y pandemig a rhaid i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd barhau i ganolbwyntio ar wrthdroi'r duedd hon. Mae'r effaith ar gyflyrau megis canser ac ar ddarparu gwasanaethau yn deg ledled Cymru yn golygu bod rhaid i sefydliadau weithio ar draws ffiniau byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau i gleifion.

Yn yr un modd, mae Covid wedi effeithio'n sylweddol ar iechyd meddwl a lles llawer o bobl ledled Cymru. Mae'n hanfodol bod gwasanaethau ac adnoddau yn canolbwyntio ar feysydd allweddol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, nid yn unig i helpu'r rhai sydd ei angen nawr, ond hefyd i atal problemau pellach yn y dyfodol.

Er mwyn gwneud y gorau o'r capasiti, yr effeithlonrwydd a'r effeithiolrwydd ar draws lleoliadau gofal iechyd, bydd gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u darparu yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus a gofal iechyd ar sail gwerth. Rhaid i hyn gael ei ategu gan fesurau rheoli haint a diogelu trylwyr mewn ysbtyai a'r gymuned i ddiogelu staff a chleifion a chynnal capasiti.

Mae'r gweithlu iechyd a gofal wedi bod yn y rheng flaen o ran addasu i dechnoleg ond hefyd o ran newid eu ffordd o weithio. Mae'r partneriaethau a'r cydweithio wedi bod yn rhan amlwg o'r ffordd y mae iechyd a gofal cymdeithasol wedi gweithio gyda'i gilydd ar draws ffiniau traddodiadol ac mae hyn wedi bod yn hanfodol i gleifion drwy gydol yr 20 mis diwethaf. Rhaid i sefydliadau'r GIG barhau i adeiladu ar y ffordd ragorol hon o weithio a chwilio am gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth er mwyn darparu gofal di-dor a mynd i'r afael â mannau gwan ar draws y system.

Ar draws yr holl wasanaethau, mae capasiti'r gweithlu a chadernid yn bryder mynych. Bydd angen cynllunio'r gweithlu mewn modd ystwyth i ddelio â chyfnodau o alw mawr ac ymchwydd. A bydd angen cynllunio'r gweithlu i allu dal i ddarparu gwasanaethau yn gynaliadwy ar draws y system.

Mae rheoli o fewn yr adnoddau presennol ac olrhain perfformiad ariannol yn bwysig ar gyfer hygyrdded a chynaliadwyedd ein sefydliadau iechyd. Mae'n hanfodol bod rheolaeth ariannol gref yn cael ei chynnal.


Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol a rhaid i'r cynlluniau nodi'r cyd-destun o ran sut mae'r sefydliad yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau eraill i sicrhau bod cydweithio'n digwydd i hybu integreiddio, ansawdd gofal a chanlyniadau cleifion. Mae statws prifysgol, y mae llawer o sefydliadau wedi'i sicrhau, yn rhan o'r dull gweithredu cydweithredol hwn. Rhaid i gynlluniau gydfynd â'r cynlluniau sydd gan glystyrau, sefydliadau eraill y GIG a phartneriaid ehangach.

Rhaid i fyrddau iechyd barhau i weithio fel partneriaid allweddol gyda'u Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau dull cynllunio integredig a chydlynol. Yn gysylltiedig â sefydlu'r Gronfa Buddsoddi Refeniw newydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol dros bum mlynedd, mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol lunio cynllun cyflawni a buddsoddi blynyddol. Bydd canllawiau ar gael maes o law.

Disgwylir i sefydliadau gysoni cynlluniau presennol i roi sylw i'r blaenoriaethau hyn a chyflwyno camau gweithredu allweddol a fydd yn sicrhau bod y sefydliad cyfan yn canolbwyntio ar y rhain.

Bydd y meysydd hyn yn sail ar gyfer trafodaethau â Chadeiryddion y GIG a bydd canlyniadau mesuradwy yn cael eu datblygu i'w cefnogi fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Canlyniadau newydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Erbyn dechrau'r flwyddyn newydd, bydd y Gweinidog yn cyhoeddi targedau mwy penodol i'r byrddau iechyd eu bodloni mewn nifer cyfyngedig o feysydd. Bydd Chadeiryddion y Byrddau Iechyd yn cael eu dal yn atebol am gyflawni'r targedau penodol hyn.

Mae'r diagram isod yn dangos y berthynas rhwng blaenoriaethau'r Gweinidog, y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (heb ei gyhoeddi eto), Fframwaith Cyflawni GIG Cymru a Chynlluniau Tymor Canolig Integredig.



4. Cynllunio clystyrau

Mae'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru yn nodi sut y bydd gofal sylfaenol yn gweithio o fewn y system gyfan i weithredu ar sail lle (y diffiniad o ofal sylfaenol yw gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol). Mae gweithio ar sail clystyrau wrth wraidd hyn gan ei fod yn dod â gwasanaethau iechyd a gofal lleol ynghyd i sicrhau bod gofal wedi'i gydlynw yn well i hybu lles unigolion a chymunedau.

Dylai'r gwaith o gynllunio clystyrau gofal sylfaenol barhau i gael ei wneud drwy'r timau cynllunio clystyrau amlddisgyblaeth ac amlasiantaeth ac adlewyrchu cyfraniadau'r holl bartneriaid at wella iechyd a lles poblogaeth y clwstwr. Dylai'r clwstwr barhau i ganolbwyntio ei adnoddau ar gyflawni nodau ac amcanion y Model Gofal Sylfaenol i Gymru.

Rhaid i'r gwaith o gyflawni gwelliannau gael ei ymgorffori yng Nghynlluniau Blynnyddol Clystyrau. Rhaid integreiddio'r rhain â Chynllun Tymor Canolig Integredig a threfniadau cynllunio'r bwrdd iechyd. Dylai cynlluniau clystyrau wneud y canlynol:

- Llywio Cynllun Tymor Canolig Integredig y bwrdd iechyd yn amlwg a chael eu llywio gan y Cynllun hwnnw
- Cael eu llywio fel arfer gan asesiad o anghenion iechyd y boblogaeth
- Darparu swyddogaeth sicrwydd bwysig
- Cael eu seilio ar y templed canllawiau cenedlaethol y cytunwyd arno er mwyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â Chynllun Tymor Canolig Integredig y bwrdd iechyd a'u cyhoeddi ar wefan y bwrdd iechyd

Mae dogfennau Cynlluniau Blynnyddol Clystyrau 2022-2023 (gan gynnwys templed i'w gyhoeddi ar wahân) wedi'u cynllunio i fod:

- Yn finimalaidd, gan nodi pwysau sy'n parhau ar wasanaethau yn sgil y pandemig
- Yn gyffyrddiad ysgafn, gan nodi y bydd 2022-2023 yn gyfnod pontio wrth i grwpiau cynllunio clwstwr gael eu sefydlu yn unol â chynigion datblygu clystyrau ar garlam
- Yn bragmatig, gan ddangos atebolrwydd dros gyflawni canlyniadau / manteision disgwylidig ac amlygu heriau a rennir

- Yn gyson â Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar gyfer 2022-25 a blaenoriaethau gwasanaethau lleol

5. Llywodraethu ac Atebolrwydd

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad oes gan holl sefydliadau'r GIG yr un set o gyfrifoldebau. Mae gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, y tair Ymddiriedolaeth GIG, y ddau Awdurdod Iechyd Strategol a'r sefydliadau cefnogol eraill bortffolios penodol neu nodweddion sefydliadol sy'n golygu y bydd angen addasu a theilwra'r Fframwaith Cynllunio "safonol" fel y bo'n briodol.

Mae gan fyrdau gyfrifoldeb llawn dros sicrhau bod eu sefydliad yn cynllunio'n effeithiol i fodloni'r disgwyliadau a nodir yn y Fframwaith hwn. Rhaid i'r cynllun sy'n cael ei lunio a'i gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth Weinidogol ddangos atebolrwydd clir drwy gamau gweithredu a cherrig milltir penodol. Rhaid i'r cynllun nodi'r trefniadau atebolrwydd a sut y bydd y Bwrdd yn sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni.

Rhaid i sefydliadau sicrhau bod cynlluniau, a'r penderfyniadau a wneir i'w llunio a'u cyflawni, yn destun craffu a sicrwydd priodol gan y Bwrdd llawn mewn modd agored a thryloyw. Rhaid sicrhau perthynas glir rhwng y cynlluniau a'r cerrig milltir i gofrestrau risg, a fydd yn tynnu sylw at y risgiau pwysig y mae'r sefydliad yn eu hwynebu. Rhaid i gamau lliniaru i fynd i'r afael â'r risgiau hyn fod yn glir yn y cynlluniau.

Bydd angen i gynllun sefydliad wneud y canlynol:

- bodloni'r gofynion statudol i gomisiynu a/neu ddarparu gwasanaethau i wella canlyniadau iechyd y boblogaeth a sicrhau cydbwysedd ariannol
- nodi camau gweithredu a cherrig milltir clir sy'n dangos sut y bydd bwriadau cynllunio yn cael eu cyflawni
- cyflawni'r cerrig milltir allweddol yn y Fframwaith Cyflawni
- triogli cyllid, gweithgarwch a gweithlu yn y cynlluniau

Fel rhan o gynlluniau integredig, bydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r GIG gwblhau ystod o ddeddi. Bydd y rhain ar gael maes o law.

Mae'r Set Ddata Sylfaenol yn darparu dull triogli data rhwng y gweithlu, gweithgarwch gwasanaethau wedi'i gynllunio a chyllid. Rhaid i'r Set Ddata Sylfaenol a'r cynllun naratif fod yn gyson â'i gilydd. Bydd y Set Ddata Sylfaenol yn cael ei dosbarthu ar wahân.

Mae'r Fframwaith Cynllunio yn eistedd ochr yn ochr â Fframwaith Cyflawni GIG Cymru 2021-2022 a gyhoeddwyd ym mis Medi. Mae gwaith hefyd ar y gweill (gan ddefnyddio methodoleg Atebolrwydd ar sail Canlyniadau) i ddatblygu Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Fframweithiau Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd a Gofal Cymdeithasol yn cael eu datblygu a'u hadnewyddu i sicrhau cysondeb. Mae hyn yn gyfle i olrhain cynnydd ar ganlyniadau i'r boblogaeth ac ar gyflawni blaenoriaethau Gweinidogol. Mae nifer o ddangosyddion posibl ar gyfer canlyniadau wrthi'n cael eu datblygu, gan gynnwys drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, i sicrhau bod y rhai mwyaf ystyrlon yn cael eu defnyddio i lywio cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer holl bobl Cymru.

Mae Byrddau'n atebol am fonitro eu cynlluniau, a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â hwy. Bydd disgwyl i sefydliadau roi diweddariadau chwarterol i Lywodraeth Cymru. Lle nad oes dull mesur cenedlaethol ar waith, bydd disgwyl i systemau lleol gasglu data i alluogi sefydliadau i ddangos

cynnydd. Bydd y Gweinidog am drafod cynnydd gyda Chadeiryddion/Is-gadeiryddion yn rheolaidd, a bydd swyddogion am wneud hynny hefyd drwy fecanweithiau rheoli gweithredol.

Dylai cynlluniau y cytunwyd arnynt gan Fyrddau fod ar gael yn eang i staff yn y sefydliad drwyddo draw, a chael eu rhannu'n agored ar wefan y sefydliad i'w gwneud yn hawdd i unigolion ddarllen y cynllun a deall blaenoriaethau ac amcanion y sefydliad.

Rhaid i gynlluniau gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd/Pwyllgor cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Bydd angen i sefydliadau sicrhau eu bod wedi addasu amserlen cyfarfodydd eu bwrdd i ddarparu ar gyfer hyn. Disgwylir i **bob Bwrdd wneud penderfyniad ffurfiol ar allu ei sefydliad i gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig a chadarnhau ei fwriad i Lywodraeth Cymru yn ysgrifenedig drwy lythyr Atebolrwydd Prif Weithredwr erbyn 15 Ionawr 2022.**

Yn olaf, dylid cyflwyno Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a gymeradwywyd gan y Bwrdd i Lywodraeth Cymru erbyn 28 Chwefror 2022.

6. Cyllid

Mae dwy flynedd eithriadol o gyllid ychwanegol wedi bod oherwydd Covid, a rhaid i sefydliadau ddangos rheolaeth ariannol gref a gafael cynaliadwy o fewn eu sefydliadau. Mae'r GIG yng Nghymru wedi derbyn dros £1.1bn o gyllid afreolaidd eleni i ymateb i Covid a chefnogi gwaith i fynd ati i adfer gweithgarwch a chapasiti ar draws y system. Wrth i gymorth ariannu afreolaidd leihau, mae'n hanfodol bod rheolaeth ariannol gref yn cael ei chynnal.

Bydd cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei chadarnhau ar 20 Rhagfyr a bydd dyraniadau'r GIG ar gyfer 2022-23 yn cael eu cyhoeddi erbyn dechrau mis Ionawr. Bydd egwyddorion a thybiaethau a fydd yn sail i gynlluniau ariannol yn cael eu llunio gyda Chyfarwyddwyr Cyllid.

Disgwylir hefyd i sefydliadau allu rhoi cyfrif am y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd a dangos yr 'ychwanegedd' y mae hyn wedi'i ddarparu o gymharu â'r lefelau gweithgarwch a fyddai wedi'u cyflawni. Bydd ar gleifion sydd bellach yn aros yn llawer hirach, o ganlyniad i effaith Covid, angen sicrwydd bod popeth y gellir ei wneud yn cael ei wneud i'w trin yn brydlon ac yn effeithiol o gyllidebau craidd a buddsoddiad ychwanegol.

Mae angen i'r cynlluniau seilwaith a nodir yn y ffurflenni cynllunio ddangos yn glir sut maent yn cyflawni blaenoriaethau Gweinidogol. Mae angen i sefydliadau fynd ati i fanteisio ar gyfleoedd o ran gweithio rhanbarthol pan fo'r rhain yn bodoli. Mae angen blaenoriaethu cynllunio gan ddarparu tystiolaeth o gymeradwyaeth gan y pwyllgor a'r bwrdd perthnasol.

Mae angen sicrhau byrddau a phwyllgorau bod modd cyflawni eu cynlluniau o fewn yr amlen ariannol a ddyrennir a bod gwasanaethau yn cael eu hailddylunio i sicrhau bod adnoddau/cyllid a gwasanaethau yn cael eu symud i ffwrdd o ofal eilaidd lle bo hynny'n bosibl i ganolbwyntio ar ddarparu gofal, gwasanaethau a thriniaeth mewn cymunedau ac yn nes at gartrefi pobl.

- Rhaid i sefydliadau reoli o fewn eu dyraniadau cyllidebol
- Dangos bod gwasanaethau, cyllid ac adnoddau gweithlu priodol yn symud o ofal eilaidd i ofal cymunedol a sylfaenol

7. Amserlen

Mae'r amserlen ar gyfer datblygu'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig i'w gweld isod:

- Darparu'r Fframwaith Cynllunio i GIG Cymru – Tachwedd 2021
- GIG Cymru i adolygu a chynllunio dros y gaeaf 2021
- Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â sefydliadau'r GIG i drafod cynlluniau drafft – Ionawr 2022
- Cadarnhau i Lywodraeth Cymru fwriad i gyflwyno cynllun – 15 Ionawr 2022
- Cyflwyno cynlluniau i Lywodraeth Cymru erbyn 28 Chwefror 2022
- Llywodraeth Cymru i adolygu cynlluniau ac ystyried risgiau – Mawrth/Ebrill 2022
- Ymgysylltu ynglŷn â datblygu mesurau ar gyfer Fframwaith Canlyniadau ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol a gyhoeddir yn 2022

1. GOFYNION STATUDOL

Mae nifer o ofynion statudol y mae rhaid eu bodloni. Rhestrir rhai o'r rhain isod ond nid yw'n rhestr gynhwysfawr. Bydd angen i fyrddau geisio sicrwydd ynghylch cydymffurfio:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016 [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) a [Chanllawiau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#)
Rhaid i fyrddau iechyd gyfrannu at asesiad llesiant lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gyhoeddir erbyn 5 Mai 2022. Bydd hyn yn llywio Cynlluniau Tymor Canolig Integredig 2022-2025 ac yn cefnogi datblygiad y Cynlluniau Llesiant a gyhoeddir erbyn 5 Mai 2023.
- Dyletswydd gyfreithiol – rhaid i sefydliadau lunio cynllun a bodloni eu cyfrifoldebau ariannol o ran craffu gan Archwilio Cymru ac, os oes angen, ddarparu tystiolaeth ychwanegol yn ôl y gofyn.
- [Gofynion Covid](#)
Mae angen i sefydliadau ystyried ac adlewyrchu'r rheoliadau COVID-19 sydd wedi'u datblygu a'u cyhoeddi.
- [Dyletswydd economaidd-gymdeithasol](#)
Mae'r ddyletswydd hon wedi bod mewn grym ers mis Mawrth 2021. Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.
Rhaid i sefydliadau ddangos eu bod wedi rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd a'i heffaith. Ym mis Awst 2021 cyhoeddwyd pecyn cymorth (a elwir yn offeryn tracio cynnydd) i gefnogi sefydliadau: [Offeryn Tracio Cynnydd y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol](#)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\)](#) a [hyb Gofal Cymdeithasol Cymru](#)
Rhaid i fyrddau iechyd gyfrannu at Asesiadau Anghenion y Boblogaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a gyhoeddir erbyn mis Ebrill 2022 ac Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad a gyhoeddir erbyn mis Mehefin 2022. Bydd y rhain yn llywio Cynlluniau Tymor Canolig Integredig 2022-2025 ac yn cefnogi datblygiad y Cynlluniau Ardal a gyhoeddir erbyn mis Ebrill 2023.
- Mae'r [Model Gofal Sylfaenol i Gymru](#) yn nodi sut y bydd gofal sylfaenol yn gweithio o fewn y system gyfan i weithredu ar sail lle (y diffiniad o ofal sylfaenol yw gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol).
- Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 - canllawiau statudol [Deddf Lefelau Staff Nyrsio \(Cymru\)](#)
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 [Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol yng Nghymru](#) a [Hyb Gofal Cymdeithasol Cymru - Rheoleiddio ac Arolygu](#)
Atgoffir Byrddau Iechyd o'u cyfrifoldeb statudol wrth ddarparu gwasanaethau gofal.

- Cyhoeddwyd **Fframwaith Ansawdd a Diogelwch y GIG** ar 17 Medi 2021.
[Fframwaith Ansawdd a Diogelwch GIG Cymru](#)
Mae'r fframwaith hwn yn darparu canllawiau a chyfarwyddyd i holl sefydliadau'r GIG, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod system rheoli ansawdd gref ar waith ar bob lefel, rhywbeth a fydd, yn ei dro, yn lleihau amrywiad o ran ansawdd. Mae hefyd yn gam ar y ffordd tuag at y dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd newydd a ddisgwylir yn 2023 fel rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.
- Deddf Cydraddoldeb 2010 [Deddf Cydraddoldeb Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Cymru](#)
Daeth ymgynghoriad ar y cynllun newydd, **Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-Hiliol**, i ben ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r ymatebion yn cael eu hadolygu a chyhoeddir y canlyniad maes o law.
- Safonau'r Gymraeg [Comisiynydd y Gymraeg – Hysbysiadau cydymffurfio](#). Cyhoeddwyd yr adroddiad gwerthuso ar *Mwy na geiriau* ar 31 Awst.
[Gwerthusiad o Mwy na Geiriau](#)
Rhaid gwneud pob ymdrech i barchu pwysigrwydd darparu gwasanaethau Cymraeg yn ystod y cyfnod heriol hwn, yn enwedig i'r rhai mwyaf agored i niwed lle mae'n fater o angen, nid dewis.
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 a deddfwriaeth gysylltiedig
[Deddf Iechyd, Diogelwch yn y Gwaith etc](#)
- **Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**
Nod y Bil Drafft yw cryfhau a hyrwyddo cysondeb o ran partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru, sicrhau canlyniadau teg a sicrhau caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. Dylai sefydliadau fod yn ymwybodol o'r cyfeiriad teithio hwn yn eu cynlluniau tymor hwy. Bydd rhagor o wybodaeth a chanllawiau statudol yn cael eu darparu cyn gynted ag y byddant ar gael.
[Datganiad Ysgrifenedig ar Bartneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus](#)
- **Fframwaith Gofal Iechyd Parhaus y GIG**
Cyhoeddwyd y fframwaith hwn ym mis Gorffennaf 2021 a bydd yn dod i rym ym mis Tachwedd. Bydd angen i sefydliadau ddangos eu bod wedi ystyried y fframwaith newydd yn eu cynlluniau a'u dyraniadau adnoddau.
[Fframwaith cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG](#)
- **Yr economi sylfaenol**
Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adeiladu ar ei gwaith mewn perthynas ag economi sylfaenol Cymru. Mae pob sefydliad o fewn GIG Cymru yn 'sefydliad angori' ac mae ganddynt bŵer gwario sylweddol y gellir ei ddefnyddio i gyflawni nodau polisi ehangach. Disgwylir i sefydliadau ymgorffori egwyddorion yr economi sylfaenol mewn cynlluniau strategol, polisiau gwario a phenderfyniadau. Bydd Rhaglen yr Economi Sylfaenol ym Maes Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 21/22 yn cael ei chyhoeddi maes o law.

- **Statws Dynodedig Prifysgol**

Mae'r dull 'prifysgol' yn broses barhaus sy'n hyrwyddo trefniadau gweithio agos parhaus gyda rhanddeiliaid, sefydliadau eraill a phartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Bydd angen i sefydliadau ystyried y dogfennau canlynol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021:

- Dynodiad Prifysgol ar gyfer Bwrdd/Ymddiriedolaeth Iechyd – Meini Prawf
- Canllawiau Dynodiad Prifysgol

Bydd asesu statws dynodedig yn rhan o'r broses adolygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Bydd hefyd yn ofynnol i sefydliadau prifysgol ddarparu 'diweddariad canol blwyddyn' byr ar weithgarwch prifysgol, erbyn diwedd mis Medi bob blwyddyn, gan ddechrau ym mis Medi 2022.